

Monmouthshire Select Committee Minutes

Pwyllgor Craffu Lle
Neuadd y Sir Brynbuga NP15 1GA
Dydd Llun, 23ain Hydref, 2023, 4.00 pm

Cynghorwyr yn Bresennol

Cynghorydd Sir Lisa Dymock (Chairman)
Cynghorydd Sir: Louise Brown, Tomos Davies, Jane Lucas, Maria Stevens, Laura Wright, Tudor Thomas, Paul Griffiths, Simon Howarth, David Jones, Frances Taylor, Su McConnel, John Crook, Phil Murphy, Mary Ann Brocklesby

Swyddogion yn Bresennol

Hazel Ilett, Rheolwyr Craffu
Robert McGowan, Swyddog Polisi a Chraffu
Paul Matthews, Prif Weithredwr
Frances O'Brien, Prif Swyddog, Cymunedau a Lle
Mark Hand, Pennaeth Llundio Lle, Tai, Priffyrdd a Llifogydd
Cath Fallon, Pennaeth Economi a Menter
Matthew Gatehouse, Pennaeth Polisi a Llywodraethiant
Craig O'Connor, Pennaeth Cynllunio
Sally Meyrick, Strategy & Policy Affordable Housing Officer
Nicholas Keyse, Rheolwr Datblygu Stadau

Ymddiheuriadau: Cynghorydd Sir Emma Bryn, Jackie Strong

1. Datganiadau o Fuddiant

Datganodd y Cynghorydd Dymock fuddiant, gan fod dau safle yn ei ward.

2. Fforwm Agored i'r Cyhoedd.

Codwyd y materion dilynol gan y cyhoedd yn ystod y fforwm yng nghyswllt y safleoedd y mae'r Cabinet yn dymuno ymgynghori arnynt:

- Mae gwallau yn y broses pam y cafodd rhai safleoedd eu gwrthod sy'n dangos gwneud penderfyniadau anghyson a simsan. Roedd diffyg hysbysiad am y safleoedd sy'n cael eu hystyried ac nid oedd y cyhoedd yn gwybod fod y Cabinet yn ystyried y safleoedd.
- Mae'r safle a gynigir yn Langley Close yn ardal gadwraeth ac yn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI) gyda gwrych hynafol a bywyd gwylt sefydledig. Mae pryderon am ddiogelwch ffordd a phryderon am fynediad, llygredd aer a llygredd sŵn.
- Mae'r cynigion hyn yn anghytbwys, oherwydd os cymeradwywyd y safleoedd yn Bradbury Farm ac Oak Grove Farm, byddai tri safle yn agos iawn at ei gilydd. Mae effeithiau gweledol niweidiol ar y tirlun, ac mae'r tir o werth amaethyddol uchel. Mae Gwastadeddau Gwent yn SSSI felly teimlid y byddai rhoi safle mewn golwg llawn yn groes i bolisi cynllunio H6 sy'n cyfeirio at yr effaith gweledol.

- Mae pryderon sylweddol am ddiogelwch ffyrdd, gan nad oes unrhyw lwybrau troed, mae'r ffordd yn heol 60mya, eto mae'r adroddiad yn sôn am 'gysylltiadau cerdded da'. Nid oes unrhyw gysylltiadau bws a chysylltiad gwael i wasanaethau cyhoeddus, tebyg i ysgolion a siopau. Dywedodd pobl fod y cynigion ar gyfer safleoedd yn beryglus ac mae rhwydweithiau gwael y byddent yn eu cynnig.

3. Galwad i mewn o'r penderfyniad gan gyfarfod arbennig y Cabinet ar 4 Hydref 2023 mewn perthynas â diwallu Anghenion Caeau Sipsiwn, Roma a Theithwyr - Adnabod Tir.

Esboniodd y Pwyllgor Craffu y broses galw mewn, fel yr amlinellir yng Nghyfansoddiad y Cyngor. Siaradodd y Cynghorydd Taylor fel yr Arweinydd Galw Mewn, gan roi manylion y rhesymau dros alw'r penderfyniad mewn, fel y nodwyd yn y cais i alw mewn. Fe wnaeth y Cynghorwyr Howarth a Jones hefyd amlinellu'r rhesymau dros alw i mewn.

Pwyntiau allweddol a godwyd gan Aelodau Galw i Mewn:

- Pryderon am gadernid a gwrthrychedd y broses.
- Pryderon am gysondeb gweithredu'r graddiadau Coch, Oren a Gwyrdd a'r rhesymeg dros dderbyn neu wrthod rhai safleoedd fel rhan o'r broses. Soniodd aelodau fod ffeithiau anghywir ac anghyson ar agweddau tebyg i agosatrwydd at brif ffyrdd.
- Pryderon am ddiffyg asesiadau ar safleoedd cyn eu cynnwys yn y Cynllun Datblygu Lleol Newydd a chyn ymgynghoriad cyhoeddus – y ddadl yw fod y broses yn teimlo'n wallus.
- Pryderon yn gysylltiedig â'r goblygiadau cost ac amseroldeb cynnal asesiadau y teimlir eu bod yn anaddas ar sail llygredd aer, llygredd sŵn a halogiad tir posibl, yn arbennig o gofio'r hinsawdd ariannol anodd.

Ymatebodd yr Aelod Cabinet Paul Griffiths i'r pwyntiau yn y galw i mewn ac ateb cwestiynau aelodau gyda Mark Hand, Nicholas Keyse, Cath Fallon a Craig O'Connor.

Pwyntiau allweddol a godwyd gan Aelodau Pwyllgor:

- Gofynnwyd i'r Aelod Cabinet gadarnhau ei fod ef a swyddogion wedi ymweld Gofynnwyd i'r Aelod Atebodd yr Aelod Cabinet, gan gadarnhau ei fod wedi ymweld â phob safle.
- Cafodd pryderon a nodwyd gan y cyhoedd am y broses i lunio rhestr fer eu hadleisio gan Aelodau – clywsant yr argymhellwyd fod Gwndy yn y rhestr fer derfynol, ond y cafodd ei dynnu ers hynny oherwydd fod y tir wedi ei halogi. Holwyd sut y gellid sicrhau Aelodau fod y broses yn gadarn a fod y cynigion yn hyfyw. Mae gan Aelodau bryderon am addasrwydd y safleoedd eraill: yn benodol ddiogelwch ffordd a diffyg llwybrau teithio llesol, cysylltiad gwael gyda thrafnidiaeth cyhoeddus a diffyg mynediad i wasanaethau cyhoeddus hanfodol.
- Mae Atodiad 1 yr adroddiad yn awgrymu bod anghysonderau, yng nghyswllt Oak Grove Farm (awgrymwyd mai Oakwell Farm oedd yr enw cywir), gyda'r adroddiad yn sôn am 'fynediad rhwydd' i'r pentref, gan awgrymu y daw o fewn y ffocws teithio llesol. Anghytunodd Aelod yn gryf gyda hyn, gan esbonio y byddai'n beryglus iawn cerdded ar hyd ymyl y B4245 heb unrhyw ffordd ddiogel o

gyrraedd ysgolion a siopau. Awgrymwyd fod yr adroddiad yn gamarweiniol, gan fod yr agosatrwydd at lwybrau teithio llesol yn 1.6 milltir, sy'n beryglus ar gyfer cymunedau i gerdded heb lwybr troed. Enghraifft arall a roddwyd oedd Bradbury Way, lle dywedodd Aelod y gwrthodwyd caniatâd cynllunio i dŷ cyfagos am dramwyfa yn arwain i Heol Crug oherwydd y credai swyddogion ei bod yn rhy beryglus. Fodd bynnag mae'r Cyngor yn cynnig rhoi lleiniau fyddai angen mynedfa/allfan o'r ffordd hon, heb unrhyw lwybrau troed ar gyfer pobl i gael mynediad yn ddiogel i gyfleusterau lleol.

- Adleisiwyd pryderon am addasrwydd cynnig Langley Close, a godwyd gan y cyhoedd, a siaradodd am bryderon diogelwch ffordd gyda ffyrdd prysur 50mya a 60mya a lleoliadau anodd eu cyrraedd. Dywedwyd nad oedd gan bob un o'r tri safle fynediad i lwybrau troed i'r preswylwyr gael mynediad diogel i gyfleusterau lleol – tebyg i ysgolion, siopau a gwasanaethau cyhoeddus eraill. Dywedodd Aelod mai mynediad gwael iawn sydd i drafnidiaeth gyhoeddus a bod y traffig yng ngogledd Heol Crug eisoes yn broblemus iawn.
- Gofynnwyd pam fod y safle a gynigir yn Langley Close mor agos at gartrefi presennol a ph'un a wyddem os byddai'r gymuned Sipsiwn Roma a Theithwyr yn hapus i fyw mor agos at aneddiadau. Holodd aelodau os ydym yn wir yn deall beth mae'r gymuned Sipsiwn, Roma a Theithwyr ei eisiau ac i ba raddau yr ydym yn ateb eu hanghenion. Rhoddodd yr Aelod Cabinet sicrwydd i'r gymuned Sipsiwn, Roma a Theithwyr a Travelling Ahead, y corff cynrychioli a fyddai'n ymwneud â'r broses ymgynghori cyhoeddus.
- Soniodd Aelodau mai ychydig o adborth a gafodd y Cyngor gan y gymuned Sipsiwn, Roma a Theithwyr, ond i'r un teulu a roddodd adborth ddweud eu bod yn dymuno aros yn y gymuned gartref ar gyfer ysgol, cyflogaeth a rhesymau cymdeithasol. Awgrymodd yr Aelod fod angen i'r Cyngor letya pobl mor agos ag sydd modd at eu cysylltiadau, eto ymddengys ei fod yn gwrthod ymchwilio hyn ar gyfer y gymuned Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Gofynnodd os oedd Travelling Ahead wedi ymweld â'r safleoedd a thynnodd sylw at ddarpariaeth dogfen Senedd Cymru ar safleoedd ar gyfer Sipsiwn, Roma a Theithwyr sy'n dweud fod angen i gynghorau edrych lle y dynodir angen, yn hytrach na dweud wrth y gymuned Sipsiwn, Roma a Theithwyr lle mae'n rhaid iddynt fynd. Dywedodd fod Oak Grove Farm, a oedd yn hanesyddol yn rhan o Severn View Farm, yn awr yn cael ei ffermio gan Park Wall Farms – sydd 2.4 milltir i ffwrdd o Oak Grove Farm. Awgrymodd y byddai Bradbury Farm ac Oak Grove Farm wedi eu lleoli rhwng yr A48, M48 a'r B4245. Cyfeiriodd at ddogfen Senedd Cymru a ysgrifennwyd gan Martin Gallagher, sy'n Deithiwr Gwyddelig ac academydd, sy'n sôn yn benodol am bryderon am agosatrwydd at ffyrdd a dywedodd fod gan y Cyngor gyfle i ddilyn dull gweithredu gwahanol.
- Gofynnodd Aelod os yw'r cyngor wedi edrych ar ddogfennau pwyllgor tai Senedd Cymru, yn arbennig ddarparu safleoedd ar gyfer Sipsiwn, Roma a Theithwyr ym mis Awst ac ymateb y Llywodraeth – mae awgrym fod mwy o hyblygrwydd yn yr adroddiadau hynny yng nghyswllt grantiau cyfleoedd a safleoedd preifat. Byddai'n ddefnyddiol cael trafodaeth ar ryw gam am fwy o hyblygrwydd am ddefnyddio grantiau cyfalaf i brynu safleoedd newydd neu wella safleoedd preifat.

- Dywedodd Aelod fod y Comisiynydd Plant wedi nodi fod yn rhaid i awdurdodau lleol ystyried y Nodau Llesiant yng nghyswllt hyrwyddo iechyd, cydraddoldeb a chymunedau cydlynus. Fodd bynnag, mae plant Teithwyr a gweithwyr cymorth wedi codi pryderon gyda'i swyddfa am "hygyrchedd safleoedd a diffyg mynediad i wasanaethau tebyg i gyfleusterau chwarae neu lwybrau cerdded diogel". Dywedodd yr Aelod Cabinet y rhoddir ystyriaeth i ganllawiau priodol.
- Roedd pryderon am ddiffyg gwybodaeth yn yr adroddiad ar y goblygiadau ariannol i'r Cyngor o asesu'r safleoedd ar gyfer llygredd sŵn, llygredd aer a halogiad tir, mewn hinsawdd ariannol heriol.
- Codwyd cwestiynau pam y gofynnir i ymgeiswyr ar gyfer prosiectau eraill ystyried safleoedd ar gyfer y gymuned Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn hytrach na'r prosiect yn eu cyflwyno.
- Soniodd Aelod bod goblygiadau y Cynllun Datblygu Lleol Newydd yn mynd ymlaen ar gyfer Bradbury Farm, er enghraifft, yn awgrymu byddai o leiaf 750/850 o dai o'i amgylch. Teimlwyd fod dosbarthiad anghymesur o safleoedd ar gyfer y Gymuned Sipsiwn, Roma a Theithwyr, ac y gall fod angen safleoedd ar draws y sir ac nid dim ond yn yr ardaloedd a gynigiwyd. Cadarnhaodd yr Aelod Cabinet fod ystyriaeth ddyladwy yn cael ei rhoi i ble mae angen safleoedd.
- Gofynnwyd cwestiwn yng nghyswllt categorïau pridd – mae safleoedd Dwyrain Cil-y-coed wedi eu dosbarthu fel 1, 2,3a, "gradd 1: - tir amaethyddol ansawdd rhagorol; gradd 2: tir amaethyddol ansawdd da, 3a: tir amaethyddol ansawdd da i ganolradd". Er y dywedodd yr Aelod na fyddent yn hybu dyrannu ar safleoedd ar dir halogedig, gofynnwyd cwestiwn am werth amaethyddol y tir. Cadarnhaodd swyddogion y cafodd y tir a gynigiwyd ar gyfer safleoedd ei gynnig ar gyfer datblygu yn y dyfodol, yn hytrach na defnydd amaethyddol.
- Gofynnwyd cwestiynau hefyd am sut y byddai tenantiaethau ffermio presennol yn cael eu trin ac iawndal ar gyfer tenantiaid. Cadarnhaodd y Swyddogion y broses ac esboniodd ei bod yn debygol y bydd tenantiaethau wedi dod i ben ar y pwynt hwnnw.
- Holodd Aelod os yw grantiau cyfalaf gan Lywodraeth Cymru yn cynnwys holl gostau halogi safle, costau llygredd aer a iawndal i landlordiaid.
- Gofynnodd Aelodau am eglurdeb os y byddid yn cynnal asesiadau lefel uchel/llinell sylfaen ar yr un pryd â'r ymgynghoriad cyhoeddus. Cadarnhaodd yr Aelod Cabinet na fyddai'r safle a ddynodwyd yn cael eu hasesu yn llawn tan y cam cais cynllunio. Dywedodd mai cam nesaf y broses fyddai mynd allan ar gyfer ymgynghoriad a chynnal yr asesiadau lefel uchel.

Canlyniad Ffurfiol y Pwyllgor Craffu (Crynodeb y Cadeirydd):

Yn dilyn dadl sylweddol gyda'r (rhan fwyaf) ar gael drwy'r ffrwd byw, symudodd y Pwyllgor i bleidlais.

Cytunodd tri Aelod i dderbyn penderfyniad y Cabinet. Cytunodd chwech Aelod i gyfeirio'r penderfyniad i'r Cyngor llawn am y rhesymau canlynol:

- Mae aelodau yn bryderus am ddiffyg y canllawiau ar y goblygiadau ariannol i'r cyngor o asesu'r safleoedd ar gyfer llygredd sŵn, llygredd aer a halogiad tir ac unrhyw gamau adfer y byddai angen eu cymryd.

Cariwyd y penderfyniad i gyfeirio'r mater at y Cyngor.

4. Cyfarfod Nesaf: Dydd Iau 9 Tachwedd 2023 am 10.00am.

Dydd Iau 9 Tachwedd 2023 am 10.00am.